

## Cyngor Cymuned Llanelian (249)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Rhagfyr 10, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Thomas D Jones Hefina Williams David Gerrard	Dafydd Griffiths Gordon Hayes Gwyn Roberts	Helen Hughes Glenys Jones
------------	--	--	------------------------------

Ymddiheuriadau: David Herbert

### **Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths**

#### **1 Datgan Diddordeb**

Cais Carol Whitaker i ymuno a'r Cyngor – Gordon Hayes yn datgan diddordeb

#### **2 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

2.1 Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Hefina Williams, Eilio TD Jones

#### **3 Materion yn Codi**

3.1 Ethol Is-gadeirydd - Nid oedd Glenys Jones am dderbyn y swydd. Etholwyd Hefina Williams yn is-gadeirydd, cynnig TD Jones, eilio Glenys Jones.

3.2 Cyfethol Aelodau – derbyniwyd cais gan Carol Whitaker yn datgan ei diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Mae Carol wedi ei geni a'i magu yn y pentref, ac yn barod yn gweithio i gefnogi'r ardal. Penderfynnwyd derbyn ei chais a'i chroesawu i ymuno a'r Cyngor. CET

Nodir bod aelod arall o'r Gymuned wedi ddangos diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor i lenwi'r ail sedd wag – gobeithir y bydd cais swyddogol wedi ei dderbyn erbyn y cyfarfod nesaf.

3.3 Cronfa Ty Moel Isaf – Estynwyd croeso i Gwyn Roberts, a diolchwyd iddo am ddod i'r cyfarfod i drafod y gronfa. Cadarnhawyd bod arian y gronfa wedi roi tuag at brosiectau cyfalaf yn ardal Llanelian, ac i'r fynwent yn benodol. O'r rhodd gwreiddiol, mae £5k wedi ei fuddsoddi yng Nghymdeithas Adeiladu Abertawe, ac mae peth arian wedi ei wario yn y fynwent i'w wneud yn ddiogel (yr hen feddi) ac i adnewyddu'r wal, yn ogystal a pheth gwariant yn y gymuned.

Esboniodd Gwyn ei fod wedi bod mewn trafodaeth a Mrs Mair Morris ac ei bod yn awyddus i roi swm o £5k yn ychwanegol i'r Cyngor Cymuned ar yr amod ei fod yn cael ei wario ar welliannau cyfalaf i'r fynwent yn Llanelian. Buasai efallai modd defnyddio'r arian yma i ddenu grant er mwyn gallu cwblhau gwaith cyfalaf angenrheidiol i lwybrau at ati yn y fynwent. Esboniodd Gwyn fod cynlluniau wedi eu trafod a Mrs Morris peth amser yn ol ac y buasai yn eu rhoi ar bapur petai'r Cyngor yn derbyn amodau rhodd ariannol.

Roedd yr Aelodau yn ddiolchgar iawn i Mrs Morris am ei rhodd hael, ac i Gwyn am weithredu ar ei rhan a derbynwyd y rhodd ar ran y gymuned. Bydd y Clerc yn anfon nodyn o ddiolch i Mrs Morris ar ran y Cyngor. CET

3.4 Cyswllt a'r Adran Briffyrdd – cafwyd ebost gan Elfed Lewis o'r adran briffyrdd yn dilyn cwestiynnu newidiadau i amodau parcio yn y gilfan ger y Neuadd ym Mhenysarn. Bwriad y newidiadau oedd gwella llif y traffog gan fod pobl yn parcio ar ochr y ffordd.

Teimlai'r aelodau bod pobl yn parcio ar y ffordd beth bynnag, ac fod hyn yn beryglus nid yn unig i rheini sydd yn teithio ar y ffordd, ond rheini sydd yn byw yn gyfagos ac am ddod i'r ffordd o'u cartrefi. Prif bwrpas y gilfan yw parcio ar gyfer defnyddwyr y post a'r Neuadd gan fod linellau parcio o flaen y swyddfa bost. Petai'r gwaharddiadau parcio yn cael eu newid yn y gilfan, buasai angen i ddefnyddwyr y post a'r Neuadd barcio ar ochr y ffordd gan na fuasai lle iddynt yn y gilfan. Mae'r broblem yn fwy cymleth nac ar y gwyneb a gofynnwyd os y buasai modd gwahodd cynrychiolydd o'r adran briffyrdd i gyfarfod a'r Cyngor i drafod ymhellach. Nid oes ond pedair mlynedd ers i'r gwaharddiad yn y gilfan gael ei weithredu. CET

3.5 Cais am Fainc Coffa – ar ol peth trafod ac ymchwil, daethbwyd i'r penderfyniad nad oes gan y Cyngor Cymuned dir i allu lleoli mainc o'r fath. Mae opsiynau fodd bynnag i leoli mainc posib ar y llwybr arfordirol (Cyngor Sir), ger y traeth (Llys Dulas) neu yng ngardd y WI yn Llanelian. Penderfynnwyd cysylltu a'r teulu i esbonio, a phasio manylion cyswllt ar gyfer y llwybr arfordirol iddynt gan mai hwn debyg fuasai'r opsiwn gorau. CET

Tra'n edrych ar gostau yswiriant ar gyfer mainc, daethpwyd i olwg mai polisi dim ond ar gyfer 'Public

- Liability' sydd gan y Cyngor ac nad yw unrhyw difrod i'n asedau wedi ei gynnwys ynddo. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a Chyngor tebyg ei maint i Laneilian i weld sut bolisi sydd ganddynt, a gofyn i'r cwmni yswiriant am bris i yswirio ein asedau. CET
- 4 Cynllunio (ni fydd y Cyngorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)**
- 4.1 Ceisiadau – CET  
 - Cae Lon, Penysarn – Estyniad a gwelliannau – DIM SYLW
- 4.2 Penderfyniadau -  
 - Glas y Dorlan, Nebo - Caniatad
- 5 Cyfrifon**
- 5.1 Taliadau i'w cymeradwyo – CET  
 - Cyflog a Chostau y Clerc Hydref – Rhagfyr 2013  
 - Taliad treth PAYE  
 - Taliad Llithfra 2013 (cyfanswm costau a chyflog £382.71)
- 6 Cais am Gymorth Ariannol**
- 6.1 Cafwyd cais cyffredinol gan Dawns i Bawb. Mae'r cwmni wedi cydweithio ag Ysgol Penysarn yn y gorffennol. Gofynnwyd i Glenys Jones drafod eu gwaith a'r Prifathro cyn gwneud penderfyniad. GJ
- 7 Unrhyw Fater Arall**
- 7.1 Swyddfa Bost - Mae'n debyg bod gweithwyr y post am barhau i gynnig y gwasanaeth yn yr adeilad bresennol.
- 7.2 Grwp Prosiect Wylfa Newydd – bydd Dafydd Griffiths yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf o'r grwp sydd i'w gynnal nos Iau 12/12/13.
- 7.3 Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol – cafwyd llythyr gan Lowri Hughes, Warden Cymunedol AHNE Mon yn gofyn os oes modd dod i gwrrd a'r Cyngor i drafod eu gwaith cadwraeth a'u rhaglen gwirfoddoli. Cytuno eu gwahodd i'r cyfarfod ym mis Ionawr. CET
- 7.4 Pwynt Leinws / Trwyn Eilian – cafwyd copi o lythyr yn ymwneud a newidiadau posib i hawliau y cyhoedd i gael mynediad ar dir Trwyn Eilian. Deallwyd bod perchenogion y tir wedi apelio i'r newidiadau arfaethiedig. Nid yw'r Cyngor Cymuned wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori o gwbl, penderfynnwyd ysgrifennu i'r Cynulliad am fwy o wybodaeth gan fod peth ddiddordeb yn lleol. CET
- 7.5 Tywydd Diweddar – Mae'r tywydd diweddar wedi achosi peth difrod i'r traeth yn Llaneilian. Mae'r gambions sydd wedi eu lleoli er mwyn atal tirlithriadau wedi eu symyd gan gerynt y mor. Bydd angen cysylltu a'r Cyngor Sir er mwyn codi ymwybyddiaeth. CET
- 7.6 Stad Llys Dulas – cynnigwyd bod llythyr o gydymdeimlad yn cael ei anfon at deulu Llys Dulas yn dilyn marwolaeth Mr John Pickering yn ddiweddar. Roedd Mr Pickering yn gefnogol o waith y Cyngor. CET
- 8 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 7/1/2014, 4/2/2014, 4/3/2014**
- Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.0yh.